Rheloau'r gêm

Cyfarwyddiadau gan yr athrawes i'r cynorthwyydd addysgu.

Bydd angen:

- Bwrdd gêm bwyd a diod
- Mat geiriau
- Dis
- Cownteri
- Dau neu fwy o chwaraewyr
- Cardiau fflach

Canmola'r plant:

- Ateb da
- Gwaith da
- Ardderchog
- Bendigedig
- Gwych
- Grando da
- Da iawn chi (i'r grŵp)
- Da iawn ti (i un plentyn)

Sut i chwarae:

- Adolyga'r geiriau allweddol gyda cardiau fflach.
- Chwaraea'r gêm gyda'r plant.
- Dysga'r plant i chwarae'r gêm.
- Dechreua gyda'r plentyn ieuengaf.
- Dweda wrth y plant, "Rhowch y cownteri ar y dechrau."
- Canmola'r plant.
- Dweda wrth y plentyn cyntaf am daflu'r dis.
- Person cyntaf, tafla'r dis.
- Symuda'r cownter ymlaen.
- Symuda ymlaen un cam os mae'r plentyn yn glanio ar yr wyneb hapus.
- Cyfra'r dotiau ar y dis.
- Edrycha ar y llun yn ofalus.
- Mae'n **bwysig**, edrycha am y tic neu'r groes.
- I ddechreua'r gêm, rhaid i ti gofyn y cwestiwn:

Beth rwyt ti'n hoffi fwyta / yfed?
Beth dwyt ti ddim yn hoffi fwyta / yfed?
(*Defnyddia'r mat geiriau*)

- Rhaid i'r plentyn cyntaf edrych ar y llun yn ofalus ac ateb y cwestiwn.

Rydw i'n hoffi bwyta / yfed _____ .
Dydw i ddim yn hoffi bwyta / yfed _____.

- Ar ôl ateb y cwestiwn, mae'r plentyn cyntaf yn gofyn y cwestiwn i'r person nesaf.
- Person nesaf, rola'r dis ac ateba'r cwestiwn.
- Parhaua o gwmpas y grŵp.
- Rhaid i'r plentyn fynd i'r 'diwedd' i ennill.

Cwestiynau Allweddol

Pwy sy eisiau chwarae gêm?

Pwy sy'n dechrau?

Ydych chi'n barod?

Cyfrwch gyda fi.

Yn eich tro, gofynnwch gwestiwn i berson arall.

Pwy sy nesaf?

Pa rhif sydd ar y dis?

Rheloau'r gêm

Cyfarwyddiadau gan y cynorthwyydd addysgu i'r plant

Bydd angen:

- Bwrdd gêm bwyd a diod
- Mat geiriau.
- Dis
- Cowteri
- Dau neu fwy o chwaraewyr.
- Cardiau fflach

Cyfarchwch y plant:

- Bore da pawb.
- Rydyn ni'n mynd i adolygu geirfa allweddol.
- Edrychwch ar y cardiau fflach.
- Ailadroddwch ar fy ôl i.
- Ydych chi'n barod?
- Eisteddwch wrth y bwrdd.
- Pwy sy eisiau chwarae gêm?

Sut i chwarae

- Rhowch eich cownteri ar y dechrau.
- Dechreuwch gyda'r person ieuengaf (chwaraewr 1).
- Roliwch y dis.
- Symudwch eich cownter ymlaen.
- Edrychwch ar y llun.
- Symudwch ymlaen un cam os ydych chi'n glanio ar y wyneb hapus.
- Edrywchwch am y tic a'r groes.
- Tic am hoffi.
- Croes am ddim yn hoffi.
- Bydd yr staff yn gofyn y cwestiwn cyntaf.
- Edrychwch ar y mat geiriau. Dywedwch:

✓ Beth rwyt ti'n hoffi fwyta / yfed? *(cadarnhaol)*

✗ Beth dwyt ti ddim yn hoffi fwyta / yfed? *(negyddol)*

- Atebwch y cwestiwn. Dywedwch:

✓ Rydw i'n hoffi bwyta / yfed _____ .

✗ Dydw i ddim yn hoffi bwyta / yfed _____.

- Person nesaf (chwaraewr 2), taflwch y dis.
- Yna person ieuengaf (chwaraewr 1), gofynnwch y cwestiwn i'r person nesaf (chwaraewr 2).
- Mae'r person nesaf (chwaraewr 2) yn ateb y cwestiwn.
- Parhewch o gwmpas y grŵp.
- Yn eich tro, atebwch y cwestiwn a gofynnwch gwestiwn i berson arall.
- Rhaid mynd i'r 'diwedd' i ennill.
- Pawb yn deall?
- Dewch i ni chwarae'r gêm!